# PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

## 13 Mehefin 2018

Yn Bresennol: Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Cynghorydd P Harries, Mrs J James, Dr RM Plummer, Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.15pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Fawrth 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Fawrth 2018.

**4. Castell Henllys**
Roedd adroddiad Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr Gogledd Sir Benfro yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghastell Henllys ar hyn o bryd, y datblygiadau diweddar, y cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a phrosiectau partner.

Gan ddiolch i'r swyddogion am adroddiad defnyddiol, gofynnodd yr Aelodau gwestiynau amrywiol am y cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar y safle, gan gynnwys y derbyniadau posibl am logi ystafelloedd a llety gwyliau, y cysylltiadau â'r gwenynwyr yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol a Maenor Scolton, y posibiliadau o ran datblygu'r safle fel canolfan yr Iaith Gymraeg, a'r broblem barhaus bod diffyg arwyddion i gaffi'r safle.

**NODWYD.**

**5. Gweithgareddau Masnachol yn y Canolfannau**
Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr yn y De wedi diweddaru'r Aelodau o ran y gweithgareddau masnachol diweddar, cyfredol a'r dyfodol yn y canolfannau, gan gyflwyno gwybodaeth am niferoedd yr ymwelwyr, incwm mynediad a gwerthiant nwyddau, yn ogystal ag amlinelliad o'r digwyddiadau arbennig a gynhaliwyd, a'r incwm o ffilmio a'r llefydd arlwyo.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad defnyddiol oedd yn cydnabod bod angen cadw’r ddysgl yn wastad rhwng gweithgareddau masnachol a dibenion y Parc Cenedlaethol. Roedd yr Aelodau yn annog gwneud prisiad economaidd llawn i weld pa mor broffidiol yw’r digwyddiadau a’r gwaith o ddatblygu llwybrau hunan-arwain a allai ymestyn yr amser y mae’r ymwelwyr yn ei dreulio yn ardal y Parc. Hefyd gwnaed awgrymiadau ynghylch datblygu'r Pas Blynyddol yn Gynllun Aelodaeth, cyfleoedd siopa ar-lein a datblygu dillad cwmni Columbia.

**NODWYD.**

**6. Adroddiad ar Reoli Tir Cadwraeth 2017-2018**

Roedd adroddiad y Swyddog Bioamrywiaeth yn nodi'r ystod o ganlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol drwy waith cadwraeth ac amgylchedd hanesyddol yr Awdurdod, gan ganolbwyntio'n benodol ar ganlyniadau monitro rheoli tir ar gyfer 2017-2018, enghreifftiau o’r hyn a gyflawnwyd o dan y cynllun 'Gwarchod y Parc', y camau a gymerwyd ar reoli’r safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod; enghreifftiau o warchod yr amgylchedd hanesyddol, y camau a gymerwyd ar y prosiect Pwyth mewn Pryd a’r prosiect Cysylltiadau Naturiol a chanlyniadau monitro a dehongli rhywogaethau.

Yn y cyfarfod, cafwyd cyflwyniad ar ganlyniadau prosiect peilot Cysylltiadau Naturiol oedd wedi dod i ben yn gynharach yn y flwyddyn, a chytunodd yr Aelodau y byddai'r berthynas a gafodd ei meithrin gyda'r busnesau a gymerodd ran yn fuddiol ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol.

Aeth yr Archeolegydd Cymunedol rhagddo i amlinellu llwyddiant y prosiect Gwarcheidwaid Treftadaeth, oedd ar y pryd yn rhedeg mewn tair ysgol, oedd wedi ymgysylltu â phlant a'u teuluoedd. Eglurodd bod gan fwy o ysgolion, o'r gogledd ac o dde'r Sir, ddiddordeb mewn cymryd rhan yn ystod y flwyddyn ysgol nesaf. Dywedodd yr Aelodau y gallai plant fod yn gyfrwng ardderchog o feithrin cysylltiadau â'r gymuned, ac roedd y ffaith bod y sesiynau hyd yn hyn wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn gredyd i'r Awdurdod.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am adroddiad defnyddiol oedd yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth am y gwaith a wneir gan yr Awdurdod. Awgrymwyd y gellid cynnwys crynodeb o'r targedau a'r cyflawniadau yn y dyfodol, a bod yr adroddiad yn cydnabod y gwelliannau i amgylchedd y Parc Cenedlaethol a gyflawnir gan yr Awdurdod.

**NODWYD.**

**7. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2018**

Dywedwyd bod yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2017-18, oedd ei hun yn dilyn dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad am y flwyddyn ariannol lawn Ebrill 2017 - Mawrth 2018 ac roedd yn cynnwys data chwarter 4 (Ionawr - Mawrth) ar gyfer rhai setiau data.

Roedd yr adroddiad yn amlygu'r meysydd hynny lle na lwyddwyd i gyflawni'r targedau, a rhoddwyd ambell esboniad am hyn, oedd wedi ennyn ymholiadau pellach gan yr Aelodau. Hefyd holwyd am hynt a helynt datblygu prosiectau i gyfeirio cleifion GIG am therapi 'cerdded', megis Prosiect 'Dewch i Gerdded' yr Awdurdod. Dywedodd y swyddogion fod hwn yn faes o ymgysylltu parhaus y gobeithir ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol.

Yn olaf, mynegodd y Prif Weithredwr peth pryder ynghylch y risgiau ariannol ac i enw da yr Awdurdod oherwydd canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor y swyddogion, oedd wedi cynyddu yn C4 i 4.88%. Roedd trafodaethau ar y mater hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol wedi awgrymu y gallai hyfforddiant ychwanegol ar faterion cynllunio fod yn fuddiol; fodd bynnag, mynegodd rhai Aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol y farn nad eu rôl oedd cytuno bob tro ar yr adroddiadau a roddwyd ger eu bron, ond hefyd i ystyried barn y gymuned. Hefyd roedd angen rhywfaint o drafodaeth ar yr ymagwedd y dylent ei chymryd ar feysydd polisi lle'r oedd anghytundeb.

Penderfynwyd **DERBYN** yr Adroddiad Perfformiad**.**

**8. Cofrestr Risg**

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Tîm Rheoli a'r Tîm Arwain wedi adolygu'r gofrestr risg a bod y camau a gymerwyd yn ddiweddar a'r newidiadau wedi'u nodi. Nid oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn risgiau wedi'u nodi na'u tynnu oddi ar y rhestr yn y chwarter, ac roedd y gofrestr lawn ynghlwm i'w hystyried gan yr Aelodau.

Dywedwyd bod y cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol wedi ystyried a ddylai Risg 15 o benderfyniad diffygiol ar faterion cynllunio gael ei gynyddu i risg uchel oherwydd y nifer cynyddol o geisiadau a gymeradwyir yn groes i'r polisïau a phenderfyniadau yn groes i argymhelliad y swyddogion. Fodd bynnag, roeddent wedi dod i'r casgliad y dylai'r sefyllfa barhau i gael ei monitro a

bod gweithdy hyfforddiant ar faterion cynllunio yn cael ei threfnu ar gyfer yr Aelodau.

Gan roi diweddariad ar y risgiau a nodwyd yn risgiau uchel, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai proses yn cael ei rhoi ar waith yn y misoedd nesaf i ganiatáu i'r Aelodau ystyried cyllideb yr Awdurdod yng ngoleuni'r pwysau ariannu cyfredol (Risg 2) ac ychwanegodd bod camau ymlaen yn cael eu cymryd, er mai camau araf oeddent, o ran gweithredu'r System Rheoli Dogfennau (Risg 28).

Holodd yr Aelodau a ddylid cyfeirio'n benodol o dan Risg 4 i GDPR (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol), ac a ddylid cynnig hyfforddiant ychwanegol i'r Aelodau ar y pwnc hwn.

**NODWYD.**

**9. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.